**Rhif:** WG41244

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020

Is-ddeddfwriaeth arfaethedig o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2020

# Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020

**Cynulleidfa**

Awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach arbennig, sefydliadau addysg bellach, Estyn, ac unrhyw un arall sydd â buddiant yn lleoliadau pobl ifanc mewn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol.

**Trosolwg**

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch *Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau ôl-16 arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020* a wnaed o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

**Camau sydd angen eu cymryd**

Dim angen camau pellach

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon at:

Tîm Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 251500
e-bost: post16aln@llyw.cymru

@WG_Education

Facebook/EducationWales

| | |
|---|---|
| **Copïau ychwanegol** | Gallwch weld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/sefydliadau-ol-16-arbennig-annibynnol |
| **Dogfennau cysylltiedig** | • Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad – Ymgynghoriad ynghylch Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol (Cymru) 2020<br>• Canllawiau ar sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol<br>• Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018<br><br>Gellir cael gafael ar y dogfennau uchod ar wefan Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/sefydliadau-ol-16-arbennig-annibynnol |

## Cynnwys


**Rhagair gan y Gweinidog** Error! Bookmark not defined.

**Cyflwyniad** **2**

**Ymateb Llywodraeth Cymru** **5**

**Crynodeb o'r ymatebion** **6**

**Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr** **9**

# Cyflwyniad

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf 2018') gydsyniad brenhinol ym mis Ionawr 2018.

Mae Deddf 2018 yn gwneud darpariaethau ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd yn disodli deddfwriaeth gyfredol sy’n ymwneud ag anghenion addysg arbennig (AAA) ac asesiadau plant a phobl ifanc ag anghenion a/neu anableddau dysgu (AAD) ym maes addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae Deddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ar ADY ('y Cod ADY') ac mae'n darparu nifer o bwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

Yn unol â Deddf 2018, bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i baratoi a chynnal cynllun datblygu unigol (CDU) ar gyfer person ifanc ag ADY nad yw mewn ysgol a gynhelir neu sefydliad addysg bellach, os yw'n penderfynu bod angen gwneud hynny yn unol â rheoliadau[1], er mwyn diwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant. Os na ellir diwallu anghenion rhesymol person ifanc am ddarpariaeth dysgu ychwanegol oni bai bod awdurdod lleol hefyd yn sicrhau lle mewn ysgol benodol neu sefydliad arall, neu ddarparu llety, rhaid i'r awdurdod gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth honno yn y CDU. Gall 'sefydliadau eraill' o'r fath gynnwys 'sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol'.

Mae adran 56 o Ddeddf 2018 yn rhagnodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol (ISPI) yng Nghymru a Lloegr a nodi mewn rheoliadau, ymhlith pethau eraill, y gofynion y mae angen eu bodloni i fod ar y rhestr. Dim ond os yw’r ISPI ar y rhestr y caniateir i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth addysg neu hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc ag ADY mewn sefydliad o’r fath. Mae Adran 56 o Ddeddf 2018 yn mynd ymlaen i ddiffinio ISPI.

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar y Rheoliadau drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau"), a wnaed o dan adran 56 o Ddeddf 2018.

[1] I’w gwneud o dan adran 46 o Ddeddf 2018

## Methodoleg

Gofynnodd y ddogfen ymgynghori 9 cwestiwn a oedd yn cwmpasu pob un o'r 11 rheoliad o dan Adran 56.

Ochr yn ochr â'r brif ddogfen ymgynghori, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau drafft ar restr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol gyda'r bwriad o ategu a rhoi eglurder am y rheoliadau drafft.

## Crynodeb

O dan Ddeddf 2018, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o ISPI yng Nghymru a Lloegr, a'i diwygio hyn o bryd i'w gilydd. Y nod o gael rhestr gyhoeddedig o ISPI yng Nghymru a Lloegr yw helpu i roi sicrwydd i awdurdodau lleol y bydd y ddarpariaeth addysgol a ddarperir yn y sefydliadau hynny a restrir yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol addysg a hyfforddiant pobl ifanc ag ADY.

Mae Deddf 2018 yn diffinio ISPI fel sefydliad sy'n darparu addysg a hyfforddiant i bobl dros oedran ysgol gorfodol ac sy'n cael ei drefnu yn arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant o'r fath i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, ni all ISPI fod yn:

(a) sefydliad o fewn y sector addysg bellach,
(b) ysgol annibynnol wedi'i chynnwys yng nghofrestr ysgolion annibynnol Cymru,
(c) sefydliad addysg annibynnol sydd wedi'i gynnwys yng nghofrestr sefydliadau addysg annibynnol Lloegr
(d) Academi 16 – 19

Mae Deddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau ISPI ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

(a) cynnwys y rhestr;
(b) gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy fel amod o gynnwys y sefydliad yn y rhest;
(c) gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy tra bo'r sefydliad wedi ei restru (gan gynnwys gofynion o ran cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i drefniadau yn y sefydliad ac i newid trefniadau o'r fath);
(d) dileu'r sefydliad o'r rhestr;
(e) yr hawl i berchenogion sefydliadau apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau
   (i) i wrthod rhestru sefydliad;
   (ii) i ddileu sefydliad o'r rhestr;
   (iii) i beidio â chymeradwyo trefniadau yn y sefydliad neu i beidio â chymeradwyo newid iddynt.

## Ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 14 o ymatebion gan sefydliadau i'r prif ymgynghoriad. Cyflwynwyd pedwar o'r ymatebion hynny drwy'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ac roedd y gweddill yn destun rhydd.

Mae Atodiad A yn rhoi rhestr o'r ymatebwyr.

Roedd y rhan fwyaf o'r 9 cwestiwn yn gofyn am ymateb 'ydw', 'nac ydw' neu 'ddim yn siŵr' yn ogystal â sylwadau ategol. Mae nifer yr ymatebion a ddangosir yn y tablau yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'r rhai a gwblhaodd y ffurflen, ac mae'r testun ategol yn cyflwyno dadansoddiad o'r holl ymatebion a gafwyd (gan gynnwys cyflwyniadau nad oeddent yn defnyddio'r ffurflen). Fel y nodwyd yn y tablau, ni ddarparodd pob ymatebydd ateb blwch ticio na sylwadau ar bob cwestiwn. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, anogwyd rhanddeiliaid i ymateb i unrhyw un o'r cwestiynau hynny yr oedd ganddynt farn arnynt yn hytrach na theimlo bod yn rhaid iddynt ymateb i bob cwestiwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd yr amser a'r ymdrech i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Roedd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys gwybodaeth a oedd y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau ISPI ac yn ymwneud â materion ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â threfniadau pontio; trosglwyddo cyllid; a'r diffiniad o ISPI o fewn y Ddeddf.

Er nad yw'r materion hyn yn effeithio ar y rheoliadau ISPI, byddant yn cael eu hystyried ar wahân.

### Y Camau Nesaf

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'w hystyried, ond nid ydynt yn effeithio ar y gofyniad i ddiwygio rheoliadau ISPI. Fodd bynnag, bydd newidiadau'n cael eu gwneud o fewn y canllawiau anstatudol er mwyn darparu eglurder, gan gynnwys ‘newidiadau i drefniadau’ a ‘cais i dynnu ISPI oddi ar y rhestr’. Bydd Llywodraeth Cymru yn gosod rheoliadau ISPI gerbron Senedd Cymru yn ystod tymor yr hydref 2020.

## Crynodeb o'r ymatebion

**Cynnwys y rhestr – rheoliadau 3 a 4**
**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r wybodaeth a'r trefniadau mae'n ofynnol eu cynnwys ar y rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol?**

At ei gilydd, atebodd y rhan fwyaf o'r 14 ymatebydd 'ydw', gyda gweddill yr ymatebwyr naill ai'n ateb 'nac ydw', 'ddim yn siŵr' neu heb ddarparu ymateb, mewn perthynas â rheoliad 3 a 4, sy'n nodi'r wybodaeth a'r trefniadau y mae'n ofynnol eu cynnwys ar y rhestr ar gyfer ISPI. Rhoddodd 13 o ymatebwyr sylwadau ategol, ac roedd llawer ohonynt yn teimlo bod angen yr eglurhad ychwanegol, yn enwedig mewn perthynas â nifer y bobl y mae'r IPSI yn darparu ar eu cyfer (rheoliad 3(b)(ii)). At hynny, ceisiwyd eglurder o ran y math o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddarperir gan yr ISPI (rheoliad 3(b)(iv)). Teimlai rhai y gallai hyn fod yn amwys ac yn agored i gael ei ddehongli. Nid oedd rhai sylwadau eraill a roddwyd i'r cwestiwn hwn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r rheoliadau.

**Gofynion i gynnwys ac aros ar y rhestr o ISPI – rheoliadau 5 a 6**
**Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw fel amod o fod ar y rhestr a'r gofynion mae'n rhaid cydymffurfio â nhw tra bydd sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol wedi'i gynnwys ar y rhestr?**

Atebodd 11 o ymatebwyr naill ai 'ydw', 'nac ydw' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn, ac nid chafwyd ateb gan y 3 arall. Fe wnaeth pawb a ymatebodd roi sylw ategol. At ei gilydd, nid oedd ymatebwyr yn anghytuno â'r rheoliadau, ond tynnwyd sylw at yr angen am eglurhad mewn perthynas â'r canllawiau i gefnogi'r rheoliadau. Er enghraifft, roedd un pwynt a gododd dro ar ôl tro yn ymwneud â peidio â chynnwys cyfeiriad at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o reoliad 5(2)(b)(iii)(aa) a 6(b)(i). Ni chyfeirir yn benodol at AGC yn y rheoliadau gan eu bod yn dod o fewn cylch gwaith Gweinidogion Cymru, sy'n esbonio pam y cyfeirir at Weinidogion Cymru ac nid AGC.

**Newidiadau i'r trefniadau – rheoliad 7**
**Cwestiwn 3: A yw'r gweithdrefnau ar gyfer newid trefniadau'r sefydliad ôl16 arbennig annibynnol yn briodol?**

Atebodd 11 o ymatebwyr, gyda'r mwyafrif ohonynt yn cytuno bod consensws cyffredinol i'r rheoliad ynghylch newidiadau i drefniadau ISPI. Fodd bynnag, codwyd pwyntiau mewn perthynas â'r broses sy'n gysylltiedig â'r canllawiau anstatudol. Codwyd rhai pryderon hefyd ynghylch amserlenni a sut y gallai hyn effeithio ar ddysgwyr mewn ISPI ar hyn o bryd tra bod y newid trefniant yn cael ei ystyried.

**Gwneud cais i dynnu ISPI o'r rhestr – rheoliad 8**
**Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno â'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais i dynnu sefydliad oddi ar y rhestr?**

Ar gyfer y cwestiwn hwn, atebodd 10 ymatebydd 'ydw', 'nac ydw' neu 'ddim yn siŵr' gyda 4 ymatebydd yn rhoi sylwadau ategol.

Er bod nifer uwch o ymatebwyr yn cytuno â’r rheoliadau wrth geisio gwneud cais i dynnu ISPI oddi ar y rhestr, cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch yr amserlen ar gyfer darparu'r hysbysiad hwn i awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys pryder pellach ynghylch sut y byddai hyn yn effeithio ar ddysgwyr sydd eisoes wedi'u gosod yn yr ISPI yn ogystal â'r cyfeiriad at 28 diwrnod o ran effeithio ar yr angen i ddod o hyd i ddarpariaeth amgen.

**Tynnu ISPI oddi ar y rhestr – rheoliadau 9 a 10**
**Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â’r ystyriaethau i dynnu sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol oddi ar y rhestr a’r weithdrefn ar gyfer gwneud hynny?**

Atebodd 11 o'r 14 ymatebydd 'ydw', 'nac ydw' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn a rhoddodd 11 sylwadau ategol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cwestiynu’r rheoliad i ddileu ISPI a'r cyngor cyfatebol a nodir yn y canllawiau anstatudol cysylltiedig. Yn benodol, teimlwyd nad yw 28 diwrnod i gael gwared ar ISPI yn ddigon hir i sicrhau bod yr ymchwiliad angenrheidiol yn digwydd. Awgrymodd rhai fod angen opsiwn ychwanegol o atal dros dro.

**Hawl i apelio – rheoliadau 11 a 12**
**Cwestiwn 6: A yw’r gweithdrefnau ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau yn briodol?**

Atebodd 11 o'r 14 ymatebydd 'ydyn', 'nac ydyn' neu 'ddim yn siŵr' i'r cwestiwn hwn a rhoddodd 8 sylwadau ategol.

Er bod nifer uwch o ymatebwyr nad ydynt yn cytuno â'r rheoliad ar hawliau apelio, roedd rhai o'r rhain yn ymwneud â rheoliadau 9 a 10, ond o amgylch y broses yn hytrach na'r rheoliadau ei hun. Wrth ystyried y sylwadau ategol, rydym o’r farn nad oes unrhyw broblemau gyda'r rheoliadau.

**Cwestiwn 7: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai’r rheoliadau sefydliadau ôl-16 arbennig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar: i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

Roedd hwn yn gwestiwn agored, lle rhoddodd 6 ymatebydd sylwadau.

Yn gyffredinol, teimlir na fydd gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r 12 rheoliad yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. Nodir nad yw rheoliadau ISPI yn cael unrhyw effaith benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Cafwyd rhai ymatebion ehangach mewn perthynas â gofynion i adolygu polisïau'r Gymraeg mewn perthynas ag ADY ac mewn perthynas â hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc ag ADY. Fodd bynnag, mae'r rhain y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau.

Datblygwyd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wrth ddrafftio'r rheoliadau hyn.

**Cwestiwn 8: Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y rheoliadau sefydliadau ôl-16 arbennig arfaethedig: i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Cwestiwn agored oedd hwn, lle rhoddodd 5 ymatebydd sylwadau.

Yn gyffredinol, teimlir nad yw’r rheoliadau yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg. Teimlir hefyd nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn cael eu ffafrio fwy neu lai nai’i gilydd o ran y ddogfennaeth sy'n ymwneud â rheoliadau ISPI.

Cafwyd rhai ymatebion ehangach mewn perthynas â gwell mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau i sicrhau y gall pobl ifanc gymryd rhan weithredol yn yr iaith a ffefrir yn y gymuned leol. Roedd hyn yn cynnwys darparu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r rhain y tu hwnt i gwmpas y rheoliadau.

**Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i’r afael â nhw, nodwch hwy yma.**

Roedd hwn yn gwestiwn agored, lle rhoddodd 3 ymatebydd sylwadau.

Nid oedd cysylltiad uniongyrchol rhwng y sylwadau a godwyd a'r rheoliadau ISPI. Dyma’r sylwadau:

- Yr angen i gael cadarnhad o rôl Gyrfa Cymru yn y dyfodol a'r effaith y gallai hyn ei chael ar yr angen i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau yn y dyfodol;

- Pryder ynghylch pa mor barod yw awdurdodau lleol i gomisiynu a sicrhau ansawdd ISPIs;

- Mae ymgysylltiad awdurdodau lleol gyda Gyrfa Cymru i gefnogi awdurdodau lleol ac ISPIs yn ystod y cyfnod pontio hefyd yn aneglur;

- Angen eglurder ynghylch trosglwyddo cyllid i awdurdodau lleol, a phryder na fydd awdurdodau lleol yn cael eu paratoi gystal â’r angen i ysgwyddo’r cyfrifoldeb sy’n cael ei drosglwyddo.

# Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr

## Rhestr o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad 'Rheoliadau Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol Drafft'

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| C Howard/K Jones | Natspec |
| J Baldwin | Coleg Penybont |
| R James | Awdurdod Lleol Ceredigion |
| K Jones | Coleg Elidyr |
| L Hinks | Estyn |
| R Williams | UCAC |
| C Denham | Colegau Cymru |
| D Jones | National Star College |